COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored
12.30 p.m., Dydd Iau 17 Mawrth 2022
Cynhaliwyd mewn sawl lleoliad, trwy gyfrwng meddalwedd Zoom

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 13 yn gynwysedig.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (Cadeirydd), Toni Schiavone (Is-gadeirydd - hyd at gofnod 5 yn unig), Jan Tiley, Tim Palazon, Jenni Jones-Annetts, Stephen Nicholls, Chris Franks, Judith Evans; Salamatu Fada (o gofnod 3 ymlaen); Cathy Clark a Caroline Davies (y cyfan, ac eithrio cofnod 7b); Siôn Aled Owen, Dona Lewis a Victory Ezeofor (hyd at gofnod 7b yn unig). Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod.
Hefyd yn Bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau); Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Steffan Wiliam (cyfieithydd - gwasanaeth cyfieithu ar y pryd). Hefyd James Berry (Pencampwr Darpariaeth Cymraeg a Dwyieithrwydd - cofnodion 1 a 2 yn unig).
Ymddiheuriadau: Marion Burke, Gareth Cork, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd); Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad).
Yn absennol: Steve David, Carl Hoskins.

2. Adroddiad ar y Ddarpariaeth Addysgol Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog

Cyfeiriodd Cath Hicks aelodau at dablau yn y papur a oedd yn dangos cynnydd mewn darpariaeth o'r fath a bod y polisi ymwybodol o recriwtio mwy o diwtoriaid oedd yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn werth chweil. Fodd bynnag, nid oedd modd gwadu yr oedd targedau wedi'u methu yn y maes hwn dros y blynyddoedd diwethaf.

Cyflwynwyd James Berry yn ei rôl fel Pencampwr, a disgrifiodd y cymysgedd yn ei rôl rhwng annog a gloywi sgiliau yn fewnol ac ymgymryd â rhywfaint o addysgu a chynllunio yn allanol. Chwe mis ers dechrau'r swydd, teimlai fod symud amlwg tuag at weithredu 'cynnig rhagweithiol' yn ymarferol wedi bod o ran y ddarpariaeth ieithyddol, yn hytrach na pholisi ysgrifenedig yn unig arno. Nid oedd yn athro, nac yn gyfieithydd, nac yn 'heddlu barn', ond ei nod oedd gwreiddio posibiliadau trwy annog pobl i roi cynnig arni a defnyddio lefel eu gwybodaeth am yr iaith yn gymesur â'u rôl, gan roi sicrwydd i gydweithwyr ac ar yr un pryd pwysleisio perthnasedd y Gymraeg i diwtoriaid a dysgwyr fel ei gilydd yn gyson. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio mwy o Gymraeg mewn negeseuon e-bost, ymestyn faint o bapurau asesu dwyieithog oedd ar gael a datblygu cwrs 'Hyfforddi'r Hyfforddwyr' trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd cyrsiau newydd yn cael eu llunio ar *Hanes yr Iaith* a *Thir a Thafod*, ac roedd cydweithredu â Dysgu Cymraeg yn golygu bod y ddau'n hyrwyddo dosbarthiadau ein gilydd. Roedd mentrau penodol yn cynnwys gweithio gyda Gwasanaeth Llyfrgelloedd Conwy, tafarndai'r Saith Seren a Thafarn y Plu, Plas Brondanw (Penrhyndeudraeth) a Thŷ Newydd (Llanystumdwy). Byddai canolfannau gweithgarwch yn rhanbarth y Gogledd yn cael eu hymestyn i rannau eraill o Gymru, maes o law. Roedd partneriaethau yn hanfodol ac roedd angen eu meithrin er mwyn ehangu gweithgarwch o gwmpas y wlad. Ar hyn o bryd,

roedd y rhain yn cynnwys gwaith gyda Merched y Wawr a Mudiad Meithrin - gyda phawb yn tynnu ynghyd tuag at greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn unol â nod Llywodraeth Cymru. Byddai partneriaethau o'r fath yn arwain yn naturiol at greu partneriaethau eraill, ym mhrofiad y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mewn trafodaeth, fe wnaeth daro rhai aelodau'r Cyngor y dylid gwerthfawrogi'r dangosyddion hyn nid yn unig o ran eu cynnwys, ond hefyd oherwydd yr ymagwedd gywir yn yr hyn a wnaed: roedd pwysigrwydd cael hwyl a gwneud dysgu yn ddeniadol yn hanfodol - roedd y cwrs ar hanes yr iaith yn arbennig o berthnasol yn hynny o beth. Fel Sefydliad â chydraddoldeb yn rym ysgogol allweddol iddo, da oedd gweld (o'r diwedd) bod camau tuag at gynnwys materion y Gymraeg mewn ymagwedd mor gynhwysol, gan olygu na fyddai pobl yn teimlo mor euog ynghylch defnyddio'r iaith.

Roedd yr hyn a glywodd yn galonogol i Chris Franks ac, yn wir, y trafodaethau ar y thema hon yn y Pwyllgor Archwilio ac (yn ail-law) ym Mhwyllgor Profiad y Dysgwyr - da oedd gweld y byddai Pwyllgor Profiad y Dysgwyr yn monitro'r mater hwn yn rheolaidd. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn am adolygu'r sefyllfa ym mis Rhagfyr fel y gellid mesur deilliannau tymor canol, a theimlai fod angen cynnal rhywfaint o realaeth ynghylch beth oedd yn bosibl, o ystyried y man cychwyn isel. Ym marn Kathryn Robson, roedd gan y Sefydliad y person cywir yn y swydd gywir o'r diwedd, ac egni y tu cefn i'r cynlluniau, gyda thiwtoriaid yn eu lle a mynd ar drywydd mwy o arian i weithredu cynlluniau. Gorffennodd y Cadeirydd trwy ddweud ei bod hi'n dda clywed cyflwyniad mor angerddol, a chadarnhaodd pa mor ymrwymedig a chefnogol oedd y Cyngor i bopeth a oedd yn cael ei wneud yn y maes hwn.

3. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 24 Ionawr 2022 a materion yn codi

Cafodd cofnodion Busnes Agored cyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Dilynwyd i fyny yn briodol ar bob un o'r chwe phwynt gweithredu a restrwyd yno, a chawsant eu gweithredu. Manteisiodd John Graystone ar y cyfle hwn i ddiolch i Toni Schiavone, yn ei gyfarfod olaf o'r Cyngor, am ei gyfraniad fel Aelod o Gyngor y Sefydliad ers 8 mlynedd, am ei gefnogaeth iddo ef fel Cadeirydd, a'r heriau a gyflwynodd pan fo angen - nid lleiaf yn eu plith y thema oedd newydd gael ei thrafod, sef addysg cyfrwng Cymraeg. Adleisiodd aelodau eraill y Cyngor y gwerthfawrogiad hwnnw, gan obeithio y byddai Toni yn parhau'n aelod unigol gweithgar o'r Sefydliad ar ôl camu i lawr o'r Cyngor ar 31 Mawrth 2022.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr, Mawrth 2022

Cyfeiriodd Kathryn Robson at y gwrthdaro yn Wcráin, at y tebygolrwydd y byddai ffoaduriaid yn ymgartrefu yng Nghymru â'n hymglymiad posibl â'u haddysgu nhw, yr oedd gwaith cynllunio cychwynnol yn mynd rhagddo ar ei gyfer. Roedd rhai cydweithwyr yn dod o Wcráin neu Rwsia neu oedd ganddynt cysylltiadau teuluol agos yno.

Bu'r Prif Weithredwr yn siaradwr gwadd mewn nifer o ddigwyddiadau diweddar, wedi cymryd rhan yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Cyfeirio Allanol ar yr Adolygiad o Addysg Oedolion, ac wedi hwyluso rhan o'r trafodaethau yn y Bwrdd Strategaeth a Gweithredu Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg a oedd, yn ei thyb hi, yn egnïol ei gefnogaeth tuag at ddysgu oedolion yn y gymuned. Roedd naws y trafodaethau'n fwy cefnogol o AOC|ALW nawr nag y bu ychydig fisoedd yn gynt, ond roedd angen i'r Sefydliad barhau i herio materion pan fyddai'r cyfle'n codi. Roedd **Taith** (yr enw newydd ar y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu) yn ymglymiad cyffrous i AOC|ALW ac, o ganlyniad i'r digwyddiad llwyddiannus i gofféu Hywel Francis ym mis Chwefror, awgrymodd Tim Palazon

drafodaethau gyda Llafur (Cymdeithas Hanes Pobl Cymru) ar y posibilrwydd o ddigwyddiad blynyddol, i godi ein proffil.

I'r gwrthwyneb, dangosodd yr adroddiad gwaelodlin ar y Strategaeth Farchnata, a ddaeth i law yn ddiweddar gan yr ymgynghorwyr FR Marketing, fod cyfyngiadau yn ein trefn bresennol a bod angen pendant i AOC|ALW godi ei broffil. Felly, y gobaith oedd y byddai'r cynlluniau am gyfarfod estynedig ar 10 Mai yn galluogi llawer o aelodau'r Cyngor i ddod ynghyd am y tro cyntaf ers dros ddwy flynedd i ganolbwyntio ar y mater hwn. Dywedodd un aelod o'r Cyngor fod y maes addysg oedolion yn gyffredinol yn 'lle dryslyd' braidd yng Nghymru, felly nid oedd yn syndod bod hunaniaeth ganfyddedig AOC|ALW fel y'i hamlygwyd yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r darlun hwnnw i raddau.

5. Y Gofrestr Risg ar gyfer Mawrth 2022

Roedd cyfarfod y Pwyllgor Archwilio'r wythnos gynt wedi nodi dau ddatblygiad diweddar yr oedd angen eu hadlewyrchu yn fersiwn nesaf y Gofrestr. Y rhain oedd effaith sefyllfa Wcráin ar y Sefydliad (effaith ariannol bosibl, efallai o ran dysgwyr oedd yn ffoaduriaid, neu hyd yn oed yn gysylltiedig ag ymosodiadau seiber o Rwsia/rhywle arall); ac effaith y cynnydd mewn costau byw ar AOC|ALW ac ar ei ddysgwyr. Ychwanegodd Steve Nicholls y dylid ystyried cynnwys y pryder a fynegwyd yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Adnoddau am brinder staff ac anawsterau llenwi rhai swyddi gwag yn fersiwn nesaf y Gofrestr, er gwybodaeth. Dywedodd Toni Schiavone, yn sgil ystyried yn gyson fod dibyniaeth ariannol y Sefydliad ar Lywodraeth Cymru yn risg fawr, ei fod bellach yn teimlo'n hapusach bod y posibilrwydd y bydd AOC|ALW yn dylanwadu ar flaenoriaethau a chyfeiriad y llywodraeth o ran dysgu oedolion yn y gymuned yn sgil-gynnyrch cadarnhaol y berthynas honno.

6. Cadarnhau'r rhaglen a'r trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol/y digwyddiad i aelodau ar 8 Ebrill 2022, gan gynnwys cymeradwyo'r cynnig a gyflwynwyd

Roedd y Cyngor yn fodlon â rhaglen y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a rhaglen y digwyddiad 'Menywod Ysbrydoledig ym Myd Addysg' a fyddai'n ei ddilyn, **gan ddim ond gofyn i'r ail gael ei recordio er mwyn gallu ei wylio'n ddiweddarach ar sianel YouTube y Sefydliad. Cadarnhawyd bod yr un cynnig a gyflwynwyd (parthed gosod diffibrilwyr) yn cyd-fynd ag egwyddorion y Sefydliad ac, felly, y dylid ei drafod**. Rhoddodd rheolwyr wybod i aelodau mai cyfanswm cost gosod diffibriliwr yr un yn y ddwy swyddfa yn ein perchenogaeth fyddai tua £1,850 a byddai'n gam gweithredu â blaenoriaeth pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn. Yna, byddai trafodaethau'n dilyn gyda'n landlordiaid ar osod cyfarpar o'r fath yn y pum swyddfa arall yr ydym yn eu rhentu.

7. Materion Llywodraethu:

a) Adolygiad Llywodraethu: cyfweliadau unigol dilynol – roedd y llinyn o'r 11 ymateb a grynhowyd yn y papur yn adlewyrchu set o safbwyntiau cadarnhaol ar y cyfan, gydag ychydig faterion y teimlid bod modd eu gwella neu roi mwy o sylw iddynt. Roedd y rhain yn cynnwys cynllunio olyniaeth ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli, a bod Pwyllgor penodol yn 'plymio'n ddwfn' i bwnc arbennig. Fodd bynnag, wnaeth rhan fwyaf y trafodaethau troi o gwmpas mewnbwn dysgwyr - fel eitem ar agendâu cyfarfodydd y Cyngor ac o ran bod aelodau'r Cyngor yn mynd gyda rheolwyr ar ymweliadau â dosbarthiadau, am ei bod yn ymddangos bod llai o gyfyngiadau ar y rheiny erbyn hyn. Rhoddodd cyfarfodydd Fforymau Rhanbarthol gyfle arall i aelodau'r Cyngor gyfarfod â dysgwyr yn rhithwir neu yn bersonol ac roeddent yn cael eu defnyddio fwyfwy at y diben hwnnw. Er bod un aelod o'r Cyngor wedi amau buddion cyswllt uniongyrchol â dysgwyr yn gyffredinol, roedd eraill o'r farn bod ymgysylltu o'r fath yn hanfodol ac mai methu cyfarfod â dysgwyr yn bersonol am ddwy flynedd oedd un o rwystredigaethau mwyaf Covid-19 i lywodraethwyr,

gan fod effaith ddynol gadarnhaol gwaith y Sefydliad yn allweddol. **Gofynnodd y Cyngor i Bwyllgor Profiad y Dysgwyr ystyried beth oedd y ffordd orau o ailgyflwyno a chryfhau'r berthynas hon rhwng dysgwyr a'r Cyngor.**

b) Cadarnhau tymor dau aelod o'r Cyngor mewn swydd – gadawodd Cathy Clark a Caroline Davies y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon. Esboniodd y Clerc sut y cafodd dull ei ddefnyddio ddechrau 2017, adeg creu Cyngor cwbl newydd o dan enw a chyfansoddiad newydd y Sefydliad bryd hynny, i rannu aelodau cychwynnol yn ddau grŵp. Byddai gan un grŵp yr hawl i'r tymor mwyaf, sef 2 x 3 blynedd, a byddai gan y llall yr hawl i dymhorau 1 x 2 ac 1 x 3 blynedd (gan olygu cyfanswm o 5 mlynedd). Diben hyn oedd osgoi sefyllfa lle y byddai potensial i nifer fawr o aelodau'r Cyngor adael 'yn frysiog' ar ôl 6 blynedd o wasanaeth, yng ngwanwyn 2023. Erbyn hyn, dim ond chwech o'r Cyngor cychwynnol hwnnw a oedd yn weddill, gan fod llawer wedi rhoi'r gorau iddi neu wedi ymddeol yn y cyfamser ac, felly, ystyriwyd bod y risgiau y byddai ymadawiad llywodraethwyr ar raddfa eang yn eu hachosi wedi cael eu hosgoi. Roedd dau aelod yn weddill a dderbyniodd dymhorau 5 mlynedd yn wreiddiol ond dymunent aros ar y Cyngor am flwyddyn bellach (Cathy Clark a Caroline Davies). O ganlyniad, cynigiwyd eu bod yn cael yr estyniad hwnnw o flwyddyn, gan felly gyrraedd yr uchafswm cyfansoddiadol, sef 6 blynedd. Fel llywodraethwyr etholedig (ar ran dysgwyr a rhanbarth Canol De Cymru, yn y drefn honno), ymgynghorwyd â'u 'hetholaethau' a rhoddwyd gwybod iddynt am y cynnig hwn. **Rhoddodd y Cyngor ei gymeradwyaeth ar gyfer yr estyniad blwyddyn i'w tymor cytunedig yn y swydd.**

8. Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ar 2 Mawrth 2022

Darparodd Caroline Davies (Cadeirydd y Pwyllgor) drosolwg o'r pynciau a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor, y nododd y Cyngor ei gofnodion. Cafodd twf cyrsiau addysgol math hybrid, yr awydd i fynd yn ôl i fwy o ddysgu wyneb yn wyneb a heriau'r naill a'r llall, eu trafod yn fyr. Ni ragwelwyd y byddid yn dychwelyd yn llwyr i'r sefyllfa cyn Covid-19: roedd tlodi digidol a thlodi cludiant ill dau'n ffactorau parhaus, yn tynnu i wahanol gyfeiriadau. Ychwanegwyd bod yr adroddiad gwaelodlin ar y Strategaeth Farchnata (a ddosbarthwyd hyd yn hyn i aelodau'r Pwyllgor Adnoddau ac i swyddogion y Cyngor yn unig) yn cwmpasu mater gwerthuso/ffurflenni adborth cyrsiau, gan wneud awgrymiadau penodol amdanynt: byddai'r Grŵp Marchnata a Chyfathrebu mewnol yn bwrw golwg ar y mater hwnnw.

9. Adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2022

Soniodd Steve Nicholls (Cadeirydd y Pwyllgor) am y materion allweddol o gyfarfod y Pwyllgor yr wythnos gynt, sef: cymeradwywyd yr uwchraddio ar gyfer 4 swydd rheolwr, ni fu unrhyw ddigwyddiadau iechyd a diogelwch yr oedd angen adrodd amdanynt dros y flwyddyn flaenorol, datblygiadau o ran rhai cytundebau eiddo a thir yn Harlech, a'r penderfyniad mewn egwyddor i fuddsoddi £1.5 miliwn o ddaliadau arian AOC|ALW mewn cyfrif buddsoddi gyda rheolwyr buddsoddi Brewin Dolphin am gyfnod enwol o 5 mlynedd - hyn pan fyddai materion geo-wleidyddol presennol wedi tawelu.

10. Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst 2021 - 31 Ionawr 2022

Dangosodd y ffigurau ar ôl chwe mis o'r flwyddyn ariannol newid mawr mewn rhagolygon, gyda gwarged o £268,000 bellach yn cael ei ragweld ar gyfer y flwyddyn ariannol. Roedd hyn yn ymwneud yn rhannol â rhai swyddi gwag hirdymor ac, felly, arbedion: nid oedd y tueddiadau ariannol sylfaenol o reidrwydd mor eglur.

11. Adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2022

Gwnaeth Chris Franks (Cadeirydd y Pwyllgor) sylw am y cynnydd boddhaol a wnaed wrth weithredu mwyafrif argymhellion archwiliad mewnol y flwyddyn gynt. Cadarnhawyd TIAA yn archwilydd mewnol am dymor 3 blynedd pellach yn dilyn proses dendro. Hefyd, byddai mater newydd, sef asesiad o effaith amgylcheddol y Sefydliad, yn mynd gerbron y Pwyllgor Adnoddau maes o law, er bod gan y Pwyllgor Archwilio ddiddordeb yn ei ganfyddiadau hefyd.

12. Hunanasesiad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor a chynlluniau ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol

Trafodwyd y cyfarfod wyneb yn wyneb arfaethedig (gan gynnwys opsiwn preswyl) oedd yn cael ei gynllunio ar gyfer cynulliad estynedig 10 Mai. Ac yntau eisoes yn y dyddiadur fel dyddiad cyfarfod y Cyngor, byddai nawr yn hytrach yn drafodaeth strategol ar ddeilliannau'r adroddiad gwaelodlin ar y Strategaeth Farchnata a byddai'n cynnwys presenoldeb aelodau'r Tîm Rheoli Gweithredol ac ymgynghorwyr.

13. Gweddill dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd cyhoeddus ar gyfer 2021-22

- Dydd Gwener 8 Ebrill 2022 (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r digwyddiad i Aelodau)
- Dydd Mawrth 10 Mai 2022 (Diwrnod Cynllunio Strategol ac opsiwn preswyl)
- Dydd Llun 4 Gorffennaf 2022

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Cam gweithredu a gytunwyd	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd y dylid gweithredu
Cofnod 6	Cadarnhau'r rhaglen ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol/y digwyddiad i Aelodau ar 8 Ebrill 2022, gan gynnwys cymeradwyo'r cynnig a gyflwynwyd	Gofynnodd y Cyngor am i'r ail ddigwyddiad i aelodau gael ei recordio er mwyn gallu ei wylio'n ddiweddarach ar sianel YouTube y Sefydliad; a chadarnhawyd bod yr un cynnig a gyflwynwyd (parthed gosod diffibrilwyr) yn cyd-fynd ag egwyddorion y Sefydliad ac, felly, y dylid ei drafod.	ST / Rhydian Williams	Ebrill 2022
Cofnod 7a)	Adolygiad Llywodraethu: cyfweliadau unigol dilynol	Gofynnodd y Cyngor i Bwyllgor Profiad y Dysgwyr ystyried beth oedd y ffordd orau o ailgyflwyno a chryfhau'r berthynas rhwng dysgwyr a'r Cyngor.	KR / ST / Caroline Davies	Mehefin 2022
Cofnod 7b)	Cadarnhau tymor dau aelod o'r Cyngor mewn swydd	Rhoddodd y Cyngor ei gymeradwyaeth ar gyfer yr estyniad blwyddyn i dymhorau cytunedig Cathy Clark a Caroline Davies yn y swydd.	ST	Mawrth 2022